

# Dod â threftadaeth i garreg eich drws

16/11/2020



Back to Life online exhibition

Gyda llawer o'r DU yn ôl dan gyfyngiadau llym yn sgil y pandemig, rydym wedi casglu rhai o'n hoff weithgareddau treftadaeth i'w mwynhau gartref.

Rydym yn falch o fod wedi cefnogi'r sector treftadaeth yn ystod y pandemig drwy gyllid brys ac adferiad, a rydym wedi rhyfeddu o weld y ffyrdd creadigol y mae prosiectau wedi'u haddasu.

Mae cymryd rhan mewn diwylliant yn codi hwyliau ac yn gwella llesiant. Gyda llawer o leoliadau byw bellach ar gau i'r cyhoedd, gobeithiwn y gall y digwyddiadau a'r gweithgareddau ar-lein leddfu rhai o'ch hiraeth diwylliannol.

Ymunwch â ni a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon drwy ddefnyddio'r hashnodau #HeritageFromHome a #HereForCulture.

## Dysgu



Eifftoleg dan gyfyngiadau symud

Mae Amgueddfa Manceinion yn cynnal detholiad eang o ddigwyddiadau ar-lein. Tiwniwch i mewn bob dydd lau am 3pm ar gyfer [Egyptology in Lockdown](#) dan arweiniad Dr Campbell Price, Curadur yr Aifft a Sudan, yn fyw o'i swyddfa gartref.

[Kresen Kernow](#) yw'r cartref i gasgliad mwyaf y byd o luniau, mapiau a dogfennau sy'n ymwneud â hanes cyfoethog ac amrywiol Cernyw. Porwch drwy 850 mlynedd o hanes Cernyw o'ch ystafell fyw eich hun!

Archwiliwch dreftadaeth Jamaican yn yr arddangosfa [Back to Life](#) ar-lein. Mae'r arddangosfa'n coffáu'r genhedlaeth gyntaf o Jamaicaid a ddaeth i Leeds yn y 1940au – 60au.

## Gwranddo

Porwch drwy gasgliad anhygoel Archif Sain y Llyfrgell Brydeinig o dros 6.5 miliwn o recordiadau o leferydd, cerddoriaeth, bywyd gwyllt a'r amgylchedd. Dilynwch eu taith o gadw sain Prydain ar eu cyfrif Twitter [@BLSoundHeritage](#).



Beth fyddwch chi'n ei ganfod yn Archif Sain y Llyfrgell Brydeinig?

Mae Archifau'r Clybiau Ieuentid wedi casglu dros 100,000 o luniau o ddegawdau o ddiwylliant ieuentid y DU ac mae'n rhannu rhai o ganfyddiadau'r babanod mewn [podlediad bob pythefnos](#). Yn y bennod gyntaf, mae'r gwesteiwr Scarlett O'Malley yn siarad â ffotograffydd Gavin. Maent yn ymchwilio i'w hunaniaeth ieuentid, ei amser fel astrologer a'i waith gyda'r cerddor a'r actor Plan B.



Podcast Youth Club

Yn ddiweddar lansiodd Digital:Works [podlediad wythnosol](#) ar ôl cynnal cannoedd o gyfweiliadau dros y blynyddoedd. Bydd y podlediadau'n archwilio bywydau a straeon dinasyddion blaenorol Llundain, gan gynnwys faciŵs yr Ail Ryfel Byd, gweithwyr bysiau Llundain, goleuwyr Tafwys, gweithwyr iard gychod, argraffwyr Fleet Street a mwy.

Gwrandewch ar y podlediad [Dear Poppy](#), am sgwrs ddiddorol rhwng pobl ifanc yn eu harddegau heddiw a menyw ifanc ffuglenol o'r enw Poppy a oedd yn byw drwy drama'r Rhyfel Byd Cyntaf.



## Cymryd Rhan

Mae Neuadd Toynbee yn Nwyrain Llundain wedi cau eu canolfan ond wedi dechrau Gweithgareddau [Activities Against Isolation](#) ar Facebook, grŵp cymunedol ar-lein pwrpasol i unrhyw un sy'n poeni y byddant yn unig neu wedi'u diflasu yn ystod cyfnod ynysu. Gallwch hefyd gymryd rhan yn eu Gwasanaeth [Phone Befriending Service](#), sy'n dwyn ynghyd bobl â diddordebau cyffredin ar gyfer sgwrs reolaidd dros y ffôn.



Sgyrsiau ffôn Neuadd Toynbee

Gwylch ddarllediad byw Amgueddfa Llundain o'r ffilm fer [We the People](#) am y gorffennol, y presennol a dyfodol gweithredaeth yn Brixton. Dilynrir y ffilm gan drafodaeth yn archwilio effaith y ffilm. Tiwniwch i mewn ddydd Iau 19 Tachwedd am 6pm.

## Creu

Reimagine Remake Replay yw grŵp o bobl ifanc sy'n canolbwyntio ar alluogi pobl ifanc eraill i gysylltu a gwella casgliadau amgueddfeydd gan ddefnyddio cyfryngau creadigol a thechnoleg ddigidol. Gwahoddir pobl ifanc 19-25 oed yng Ngogledd Iwerddon i gymryd rhan yn eu cyfres o ddigwyddiadau sy'n [gwneud masg wyneb gyda'r artist Kit Rees](#) drwy fis Tachwedd a mis Rhagfyr.

Mae Leighton House yn annog pawb i fod yn greadigol drwy gymryd rhan yn eu [gweithdai Celf Islamaidd](#) am ddim drwy gydol mis Tachwedd. Maent hefyd yn cael gweithgareddau ar-lein hwyliog eraill fel tiwtorialau crefft, cyfres Artistiaid mewn Sgwrs a thafleuni gweithgareddau.



Bydd darllediad Amgueddfa Llundain o'r ffilm We the People yn digwydd ar 19 Tachwedd, 6pm


## Eisiau mwy?

Os nad yw hyn wedi eich helpu i oroesi eich hiraeth diwylliannol, gweler ein rhestr helaeth [a grëwyd yn gynharach eleni.](#)



ddordeb hefyd mewn ...


[An #IsolationCreation project](#)





**£50m**  
Heritage Emergency Fund  
awarded more than  
**950 grants**

[£50m for England's heritage](#)



[Cronfa Argyfwng Treftadaeth yn cefnogi cannoedd o sefydliadau ledled y DU](#)